**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@Senedd.Cymru

26 Ionawr 2023

Annwyl Huw,

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr yn adrodd am ail gyfarfod Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, a'r modd y mae'r Senedd yn chwarae rhan ynddo.

Rwy'n cytuno'n llwyr fod y Cytundeb Masnach a Chydweithredu o bwys mawr i Gymru a bod angen i'r Senedd a Llywodraeth Cymru gymryd rhan yn weithredol yn y gwaith o'i lywodraethu. Mae hynny yn sgil ein cyfrifoldebau am faterion sydd o fewn cwmpas y Cytundeb. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod perthynas ehangach y DU a'r UE yn parhau'n hanfodol o ran dyfodol Cymru, a gweddill y DU. Rwy'n awyddus i weld Cymru'n chwarae rhan weithredol mewn fforymau o'r math hwn cyn gymaint â phosibl er mwyn datblygu hynny'n gadarnhaol. Yn benodol, rwy'n nodi'r argymhelliad ynghylch yr angen i wella cydweithredu yn y maes ynni, yn arbennig gan ystyried yr heriau enfawr o ran materion hinsawdd a'r sefyllfa geowleidyddol sydd ohoni ar hyn o bryd.

Edrychaf ymlaen at eich mewnbwn parhaus yng Nghynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE ac at y cydweithio gweithredol rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi hyn.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.